# SL(5)654 – Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael yn ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth yr UE a restrir yn Atodiad 2 i'r Protocol hwnnw gael ei gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Rheoliadau hyn, felly, yn diwygio Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio (Ymadael â'r UE) 2019 er mwyn gweithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ac at ddibenion ymdrin â materion sy'n codi o'r Protocol hwnnw neu sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r newidiadau a wneir gan yr offeryn yn angenrheidiol i sicrhau bod deddfwriaeth yr UE a ddargedwir, a deddfwriaeth ddomestig yr UE sy'n ei gorfodi, yn parhau i weithredu'n effeithiol, er mwyn gweithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ac at ddibenion delio â materion sy'n deillio o, neu'n gysylltiedig â'r Protocol hwnnw.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Tachwedd 2020**